# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
24 Medi 2018

## SL(5)254 – Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Rhwymedigaethau) (Cymru) 2018

### Gweithdrefn: Negyddol

Sefydlwyd Awdurdod Iechyd Arbennig, sef Addysg a Gwella Iechyd Cymru ("AaGIC"), o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae prif swyddogaethau AaGIC yn ymwneud â chynllunio, comisiynu a darparu addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n cael eu cyflogi, neu sy'n ystyried cael eu cyflogi, mewn gweithgaredd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd y gwasanaeth yn dechrau ar 1 Hydref 2018. Cyflawnir llawer o'r swyddogaethau hyn, ar hyn o bryd, gan yr Uned Datblygu'r Gweithlu, Addysg a Chomisiynu yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff (Erthygl 3) ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau (Erthygl 4) o Ymddiriedolaeth GIG Felindre i Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae Erthygl 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth.

Mae Erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhad gweithgareddau a gyflawnir gan, neu mewn perthynas ag, Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

**Fe'u gwnaed ar**: 06 Medi 2018

**Fe'u gosodwyd ar**: 07 Medi 2018

**Yn dod i rym ar**: 01 Hydref 2018

# SL(5)255 – Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2018

## Gweithdrefn: Negyddol

Yn rhinwedd adrannau 41(2) a 52(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), sydd i'w darllen ar y cyd â Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1370 (Cy. 139)) a wneir o dan adran 54A o Ddeddf 1988, mae rhestrau ardrethu annomestig ar gyfer Cymru i'w llunio ar 1 Ebrill 2017 a phob pumed flwyddyn wedi hynny.

Mae paragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn darparu, at ddibenion llunio rhestrau o'r fath, fod gwerth ardrethol hereditament annomestig i'w bennu drwy gyfeirio at y diwrnod y mae rhaid llunio'r rhestrau neu ar unrhyw ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2019 fel y diwrnod hwnnw at ddibenion llunio'r rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog nesaf pan fydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym.

Mae erthygl 3 yn diddymu Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2917 (Cy. 297)), a oedd yn pennu'r diwrnod yr oedd rhaid cyfeirio ato o ran yr eiddo a oedd i'w brisio at ddibenion y rhestrau a luniwyd ar 1 Ebrill 2017.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:** 12 Medi 2018

**Fe'u gosodwyd ar:** 17 Medi 2018

**Yn dod i rym ar:** 10 Hydref 2018